# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

# BWRDD GOFAL CYMDEITHASOL, IECHYD A LLES Y CABINET

# DYDD IAU, 30 IONAWR 2020

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: A.R.Lockyer a/ac P.D.Richards

**Swyddogion yn bresennol:**

A.Jarrett, A.Thomas, J.Hodges, K.Warren, C.Davies a/ac J.Woodman-Ralph

**Swyddfa Archwillio Cymru:**

Cynghorwyr: C.Galsworthy

---

## 1. PENODI CADEIRYDD

Cytunwyd y byddai'r Cynghorydd P.D. Richards yn cael ei benodi'n Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

## 2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2019.

## 3. BLAENRAGLEN WAITH 2018-19

Y dylid nodi'r flaenraglen waith ar gyfer 2019/2020.

## 4. GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, ADRODDIAD BLYNYDDOL CWYNION A CHYNRYCHIOLIADAU 2018-2019

**Penderfyniad:**

Y dylid nodi'r adroddiad.

## 5. AILFODELU'R GWASANAETHAU I OEDOLION

**Penderfyniad:**

Y dylid rhoi caniatâd i'r Pennaeth Gwasanaethau i Oedolion ddechrau ymgysylltu a chyfathrebu â'r gweithlu Gwasanaethau i Oedolion.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

I sicrhau bod gennym Wasanaeth i Oedolion sy'n gallu ateb anghenion cyfnewidiol a galwadau ein poblogaeth leol a sicrhau bod y gweithlu'n cael cyfle i lywio a hysbysu'r gwaith o wneud penderfyniadau mewn perthynas â'r model at y dyfodol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**Ymgynghori:**

Mae'r adroddiad yn gofyn am ganiatâd i ymgynghori â staff am ailfodelu Gwasanaethau i Oedolion. Byddai ymgynghori ynghylch unrhyw newidiadau i'r gweithlu yn unol â'n gofynion cyfreithiol a'n polisïau adnoddau dynol mewnol a byddai'n cynnwys adran adnoddau dynol y Cyngor a chynrychiolwyr undebau.

## 6. TREFNIADAU CYTUNDEBOL AR GYFER GWASANAETHAU DYDD ARBENIGOL A CHARTREFI GOFAL ARBENIGOL A GOMISIYNIR YN ALLANOL

**Penderfyniad:**

Y dylid nodi'r adroddiad.

## 7. CYTUNDEB AMALASIANTAETH (CYDWEITHREDOL) YN YMWNEUD A DARPARU GWASANAETH THERAPI LLEFERYDD AC IAITH RHANBARTHOL

**Penderfyniadau:**

1. Y dylid caniatáu awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc i gytuno telerau terfynol y Cytundeb Rhyngasiantaethol gyda Dinas a Sir Abertawe ar gyfer darparu gwasanaeth therapi iaith a lleferydd rhanbarthol ar gyfer Cartref Diogel i Blant Hillside a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrraeth Gynnar;

2. Ar ôl cytuno ar delerau terfynol y Cytundeb Rhyngasiantaethol, dylid caniatáu awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc i sefydlu contract gyda Dinas a Sir Abertawe hyd at 31 Mawrth 2021;

3. Y dylid penodi Dinas a Sir Abertawe fel y sefydliad arweiniol ar gyfer prynu'r gwasanaeth hwn gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ac arwain y dasg o reoli'r contract rhanbarthol.

**Rheswm dros y Penderfyniadau:**

I alluogi'r Cyngor i ateb y galwadau am wasanaethau Therapi Iaith a Lleferydd a sicrhau bod cytundeb cyfreithiol-rwymol yn ei le sy'n nodi'r telerau cymeradwyedig ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â Dinas a Sir Abertawe.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

## 8. MYNEDIAD I GYFARFODYDD

**PENDERFYNWYD:** Y dylid eithrio'r cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 100(A) (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 oherwydd eu bod yn cynnwys y tebygolrwydd o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o'r Ddeddf uchod.

9. **TREFNIADAU CYTUNDEBOL AR GYFER PLANT A PHOBL IFANC**

**Penderfyniadau:**

1. Y dylid caniatáu awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc i sefydlu contractau gyda:

   - Barnardos ar gyfer darparu 'Gwasanaeth Dyfodol Gwell' a
   - Dinas a Sir Abertawe ar gyfer darparu 'Gwasanaeth Wynebu'r Her';

2. Y dylid rhedeg y contractau hyd at 31 Mawrth 2021 gyda'r opsiwn os yw'n ofynnol i ymestyn hyd at 31 Mawrth 2022.

**Rheswm dros y Penderfyniadau:**

I sicrhau bod fframwaith cyfreithiol-rwymol yn ei le rhwng y partïon ac i barhau â'r gwasanaethau hanfodol hyn.

**Rhoi'r Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

10. **CONTRACTUAL ARRANGEMENTS FOR SERVICES FUNDED BY THE HOUSING SUPPORT GRANT**

**Penderfyniadau:**

Yn ddarostyngedig i gadarnhad Llywodraeth Cymru ynghylch dyrannu Grant Cymorth Tai i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot:

1. Y dylid caniatáu awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Gwasanaethau i Oedolion i sefydlu contractau gyda:

   a. Caer Las Cymru
   b. Cyfiawnder Tai Cymru
   c. Calan DVS
   d. Hafan Cymru
   e. Thrive
   f. Grŵp Tai Coastal Housing
   g. Platfform

2. Y dylai'r contractau redeg hyd at 31 Mawrth 2021, yn ddarostyngedig i gyfnod rhybudd o 3 mis.

**Rheswm dros y Penderfyniadau:**

I sicrhau bod fframwaith cyfreithiol-rwymol yn ei le rhwng y partïon ac i barhau â'r gwasanaethau hanfodol hyn.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

## 11. Y GWASANAETH ADNEWYDDU AC ADDASU TAI - ADRODDIAD GWASANAETH

**Penderfyniad:**

Y dylid nodi'r adroddiad.

**CADEIRYDD**